SHERMAN THEATR • THEATRE

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# GWYBODAETH I YMGEISWYR: RHEOLWR BAR A CHEGIN

Ionawr 2026

Annwyl Ymgeisydd

Dyma becyn cais ar gyfer swydd Rheolwr Bar a Chegin yn Theatr y Sherman. Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y swydd.

Bydd y Rheolwr Bar a Chegin yn helpu i arwain gweithrediadau Blaen y Tŷ yn y theatr, ac i sicrhau bod y Bar a'r Gegin yn darparu gwasanaeth priodol yn effeithiol ac yn broffidiol gan gefnogi ac ategu amcanion Theatr y Sherman.

Theatr y Sherman yw un o brif theatrau cynhyrchu gwledydd Prydain, ac mae'n un o sefydliadau diwylliannol pwysicaf Cymru.

Wedi'i lleoli yng nghanol Caerdydd, mae Theatr y Sherman yn creu ac yn curadu theatr ragorol ar gyfer pobl Caerdydd, Cymru, a'r tu hwnt. Drwy ganolbwyntio ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd, ac ar feithrin artistiaid sy'n byw neu'n dod o Gymru, mae'r Sherman yn bwerdy i theatr Cymru. Mae Theatr y Sherman yn adrodd straeon lleol sydd â pherthnasedd byd-eang drwy ei chynyrchiadau a gaiff eu hymarfer a'u creu o dan ei tho yn y brifddinas. Mae'r Sherman yn lle i bawb. Mae'n creu cyfleoedd i ddinasyddion Caerdydd gysylltu â theatr drwy waith ymgysylltu ysbrydoledig ar sail gweledigaeth.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi mynd o nerth i nerth gyda chydnabyddiaeth ar lwyfan gwobrau cenedlaethol, canmoliaeth gan y beirniaid i'n gwaith a thrwy gynyddu ein cynulleidfaoedd. Mae'r amgylchedd ffyniannus hwn yn cael ei adlewyrchu yn y gofod croesawgar yn ein prif Gyntedd lle mae gwasanaeth Bar a Chegin dyddiol yn cynnig lluniaeth, gwasanaeth gwych i gwsmeriaid a chroeso cynnes i'n holl gwsmeriaid, preswylwyr creadigol a thimau staff.

Mae gennym gyfle i Reolwr Bar a Chegin newydd gymryd yr awenau i weithredu'r elfen hon ac i adeiladu ar y gwaith gwych sydd eisoes wedi'i wneud i ddatblygu'r cynnig a'r busnes ymhellach. Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig sy'n awyddus i ymuno â'n tîm.

Rydyn ni eisiau i Theatr y Sherman fod yn hygyrch i bawb ac felly mae'n hynod bwysig i ni fod ein tîm yn y theatr yn adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws y ddinas a thu hwnt. Rydym felly'n croesawu'n arbennig ymgeiswyr o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau B/byddar ac anabl sy'n cael eu tangynrychioli o fewn ein tîm ar hyn o bryd.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk

@ShermanTheatre

I wneud cais am y swydd, llwythwch y ffurflen gais, y daflen eglurhaol a'r ffurflen tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant i lawr o'n gwefan: www.theatrsherman.co.uk/swyddi a'u hanfon i recruitment@shermantheatre.co.uk. Noder, yn unol â'n polisi amgylcheddol, mai dim ond ceisiadau electronig y byddwn yn ymdrin â nhw. Y dyddiad cau yw **hanner dydd ar ddydd Llun 2 Mawrth 2026.** Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael eich cais dros e-bost.

Cynhelir y cyfweliadau **dydd Gwener 6 Mawrth.** Rhowch wybod i ni, ar y daflen flaen, a fyddech ar gael am gyfweliad ar y dyddiad hwnnw fel y byddwn yn gwybod mewn da bryd os bydd angen i ni wneud trefniadau eraill ar gyfer unrhyw ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cyn i chi wneud cais, neu i drafod unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau hygyrchedd er mwyn eich galluogi i gymryd rhan yn y broses gyfweld yn llawn, cysylltwch â ni drwy recruitment@shermantheatre.co.uk

Diolch am eich amser ar y cais hwn - rydym wir yn edrych ymlaen at glywed gennych, ac at ystyried sut bydd eich sgiliau, eich profiadau a'ch angerdd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith.

Pob lwc gyda'ch cais

Yn gywir

Julia Barry
Prif Weithredwr
Theatr y Sherman

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# RHEOLWR BAR A CHEGIN: TROSOLWG O'R ROL

Mae Theatr y Sherman yn dymuno penodi Rheolwr Bar a Chegin i helpu i arwain gweithrediadau Blaen Tŷ'r theatr. Byddant yn cyfrannu at effeithlonrwydd gweithredol yr adran ac yn darparu gwasanaeth cwsmer i'r safon uchaf. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y gallu profedig i sicrhau fod y Bar a'r Gegin yn darparu gwasanaeth priodol yn effeithiol ac yn broffidiol gan gefnogi ac ategu amcanion Theatr y Sherman yn ystod a thu hwnt i amseroedd perfformiadau ac yn unol ag amcanion datblygu cynulleidfa. Mae hwn yn gyfle gwych i rywun sydd am wneud eu marc yn un o theatrau cynhyrchu mwyaf cyffrous y DU, wedi'i lleoli mewn dinas hardd, ffyniannus sy'n cael ei chydnabod fel lle rhagorol i fyw.

## Rheolwr Bar a Chegin: Manylion Cytundebol

| | |
|---|---|
| Cyflog: | £27,521 - £28,719 y flwyddyn yn dibynnu ar brofiad |
| Cyfnod: | Parhaol |
| Oriau: | 39 awr yr wythnos gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau. |
| Gwyliau: | 22 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â'r 8 gŵyl banc/gwyliau cyhoeddus cydnabyddedig, gyda nifer y dyddiau'n cynyddu gyda hyd y gwasanaeth hyd at uchafswm o 28 diwrnod ynghyd â gwyliau banc/cyhoeddus |
| Cyfnod Rhybudd: | 1 mis gydag wythnosau ychwanegol wrth i hyd y gwasanaeth gynyddu (Y cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf yw 1 wythnos) |
| Pensiwn: | Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn yn y gweithle cymwys. |
| Hawl i Weithio: | Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennaeth o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006. |
| Canolwyr: | Mae cynigion cyflogaeth yn amodol ar dderbyn tystlythyrau sy'n foddhaol i Theatr y Sherman. |
| Dyddiad dechrau: | Mae'r swydd hon ar gael ar unwaith. |

**Buddion Anghytundebol**

Rydym yn annog yr holl staff i weld cymaint o sioeau â phosibl ac i fod yn rhan o bob cam o'r broses gynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman. Gwahoddir pob aelod o staff i fynychu Noson y Wasg ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman, ynghyd â thocynnau am ddim i'r rhan fwyaf o sioeau. Rydym hefyd yn cynnig gostyngiad staff yn y Bar a'r Gegin i bob aelod o staff.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

disability confident
COMMITTED

SHERMAN THEATR • THEATRE
Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE
029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

# SWYDD DDISGRIFIAD: RHEOLWR BAR A CHEGIN

## Prif bwrpas y rôl

Sicrhau darpariaeth effeithiol a phroffidiol a chynnig gwasanaeth Bar a Chegin priodol sy'n cefnogi ac yn cyd-fynd ag amcanion Theatr y Sherman yn ystod a thu hwnt i amseroedd perfformio ac yn unol ag amcanion datblygu cynulleidfa. Gweithio tuag at dargedau i ddatblygu cynllun ar gyfer cynhyrchu incwm Bwyd a Diod. Arwain ar ddatblygu bwydlenni a chostau, a, gweithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau i greu cynigion, cyfleoedd a hyrwyddiadau deniadol ar draws yr arlwyaeth er mwyn cynyddu gwerthiant. Arwain ar ddiogelwch, hylendid ac ansawdd bwyd. Adeiladu tîm Bar a Chegin brwdfrydig a medrus iawn. Cefnogi'r Pennaeth Gweithrediadau gyda'r gweithrediadau wyneb yn wyneb a'r cyhoedd a rheoli cyfleusterau o ddydd i ddydd yn y theatr gynhyrchu a chyflwyno brysur hon. Fel deiliad trwydded bersonol, gweithredu fel Rheolwr ar Ddyletswydd yn ôl yr angen.

## Yn atebol i

Pennaeth Gweithrediadau

## Yn gyfrifol am

Goruchwylwyr Bar a Chegin, Cynorthwywyr Bar a Chegin, a Gwirfoddolwyr

## Cysylltiadau Allweddol

Prif Weithredwr, Rheolwr Profiad Ymwelwyr, Pennaeth Cynulleidfaoedd a Chyfathrebu, Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth, Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio, Rheolwr Cynhyrchu a Rhaglennu

## PRIF GYFRIFOLDEBAU:

- Gweithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau, i ddatblygu Gwasanaeth Bar a Chegin Theatr y Sherman, gan sicrhau profiad cwsmer o safon uchel a gweithrediadau proffidiol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith o ran cyfleusterau, gan gydymffurfio â gofynion iechyd yr amgylchedd a safonau masnach o fewn y cwmni bob amser.

- Datblygu a chynnal safon ac arddull yng ngwasanaeth y Bar a'r Gegin sy'n rhan annatod o, ac yn gefnogol i weithrediadau craidd, gwerthoedd, rhaglen a gwasanaethau Theatr y Sherman. Bydd gennych agwedd ymarferol, fydd yn sicrhau gweithrediad llwyddiannus y Bar a'r Gegin, a bydd y gwasanaeth yn cwrdd â gofynion pob un o wahanol fathau o weithgareddau Theatr y Sherman.

- Gweithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Cynhyrchu a Rhaglennu i ysgogi cynhyrchu incwm trwy gynadleddau, llogi adeiladau a chynllunio digwyddiadau

- Bod yn gwbl atebol am holl stoc y Bar a'r Gegin; archebu, derbyn a chreu adroddiadau.

- Recriwtio, rheoli, hyfforddi a chreu rota ar gyfer staff y Bar a'r Gegin.

- Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Gweithrediadau wrth drafod yr holl weithdrefnau trwyddedu, Iechyd a Diogelwch a gwacáu'r adeilad mewn achos tân.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

- Datblygu dulliau cyfathrebu deniadol a chyson gyda'r tîm marchnata, er mwyn hybu'r defnydd o'r Bar a'r Gegin a'r gwerthiant.

- Croesawu a hyrwyddo ethos o ddatblygiad cynaliadwy a gweithio'n agos gyda staff allweddol eraill i nodi a gweithredu mesurau i leihau effaith amgylcheddol gweithgareddau'r Sherman.

## 1 Cynllunio a Datblygu

Gweithio i dargedau cytûn i ddatblygu a chyflawni cynllun ar gyfer cynhyrchu incwm arlwyo, gan weithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau i greu cynigion, cyfleoedd a hyrwyddiadau deniadol ar draws yr arlwy bwyd a diod ar gyfer pob perfformiad a digwyddiad er mwyn sicrhau'r gwerthiant mwyaf posibl.

1.1 Gweithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau i dyfu a datblygu cynnyrch a gweithgareddau'r Bar a Chegin i gynyddu'r incwm a gynhyrchir.

1.2 Rheoli cyllidebau'r Bar a Chegin yn fanwl ar gyfer cyflenwadau a staffio, a darparu gwybodaeth a gwiriadau, yn ôl yr angen, gan yr Uwch Dîm Arwain

1.3 Monitro ac adrodd yn rheolaidd ar sefyllfa Elw a Cholled gyfredol a rhagamcanol y Bar a'r Gegin ac ymateb yn unol â hynny.

1.4 Datblygu, gweithredu a chynnal systemau rheoli stoc cadarn gan gynnwys rhagfynegi tueddiadau manwerthu i sicrhau cyflenwad digonol i ateb y galw. Gweithredu systemau ar gyfer cofnodi a rheoli gwastraff.

1.5 Adolygu cydberthnasau â chyflenwyr yn rheolaidd i sicrhau bod y Sherman yn elwa o'r gwerth gorau, prisiau cystadleuol a chynnyrch sy'n ddeniadol i gwsmeriaid, tra'n sicrhau'r elw uchaf posibl.

1.6 Cydweithio â'r Pennaeth Gweithrediadau ac adrannau eraill i fanteisio ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol trwy reoli a darparu gwagleoedd i'w llogi a chynnal digwyddiadau.

## 2 Cynigion Bwyd a Diod

Dylunio a gweithredu arlwy bwyd a diod sy'n gwella profiad y cwsmer ac yn cynhyrchu gwasanaeth proffidiol yn Theatr y Sherman, tra hefyd yn ystyried cynaliadwyedd a gweithio gyda chynhyrchwyr lleol lle bo hynny'n bosibl ac yn ariannol ymarferol.

*2.1* Cynllunio bwydlen slic, gyfoes ac effeithiol sy'n addas ar gyfer gwahanol gyfnodau mewn diwrnod arferol yn Theatr y Sherman ac arwain ar ddatblygu bwydlenni a phecynnau ar gyfer digwyddiadau a llogi'r adeilad.

*2.2* Sicrhau bod y Bar a'r Gegin yn gweithredu'n esmwyth yn ôl gofynion y busnes.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

*2.3* Datblygu tîm o Gynorthwywyr Bar a Chegin sydd wedi eu hyfforddi'n drylwyr ac sy'n deall sut i baratoi, coginio, cyflwyno a gweini'r bwyd a diod yn y Bar a'r Gegin yn gywir.

## 3 Staffio

Recriwtio, rheoli, hyfforddi a chreu rota ar gyfer y Goruchwylwyr Bar a Chegin a Chynorthwywyr Bar a Chegin achlysurol o fewn y gyllideb a gytunwyd arni.

3.1 Recriwtio, hyfforddi a rheoli y tîm Bar a Chegin safonol, sy'n ymgorffori gwerthoedd Theatr y Sherman.

3.2 Sicrhau bod yr holl staff yn gweithio o fewn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, ac i safonau priodol; gan gynnwys monitro perfformiadau gwaith, cadw amser a disgyblaeth gyffredinol.

3.3 Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu briffio'n rheolaidd ar newidiadau a diweddariadau i'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sefydliadol eraill.

## 4 Gwasanaeth Cwsmer

Hyrwyddo lefelau eithriadol o wasanaeth cwsmer, gan weithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau i ddarparu Safonau Gwasanaeth Cwsmer ymhob agwedd wrth i'r cwmni ryngweithio â'r cyhoedd.

4.1 Datblygu rhaglen ar gyfer hyfforddi a datblygu holl staff y Bar a'r Gegin gan sicrhau bod ganddynt wybodaeth eithriadol o'r cynnyrch a'u bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau mewn ffordd sy'n cynrychioli gwerthoedd y cwmni ac sy'n sicrhau lefel uchel o gysondeb o ran safonau gwasanaeth.

4.2 Ymgymryd â rôl y Rheolwr ar Ddyletswydd ar gyfer perfformiadau, digwyddiadau a gweithgareddau yn y Sherman yn ôl yr angen er mwyn sicrhau dealltwriaeth a throsolwg cadarn o'r gweithrediadau presennol (disgwylir y bydd deiliad y swydd yn ymgymryd ag o leiaf ddwy shifft yr wythnos fel Rheolwr ar Ddyletswydd, gan ddibynnu ar y rhaglen, gan gynnwys gyda'r nos, penwythnosau a Gwyliau Banc).

4.3 Sicrhau bod yr adeilad a phob digwyddiad yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithlon yn unol â rheoliadau'r awdurdod trwyddedu. Sicrhau diogelwch a lles defnyddwyr yr adeilad a chynnal y safonau uchaf o ofal cwsmer, ymddangosiad ac arferion gwaith staff y Bar a Chegin, a'r gwirfoddolwyr.

4.4 Sicrhau diogelwch yr adeilad a gweithredu fel deiliad allwedd pan fo angen.

4.5 Bod yn Swyddog Cymorth Cyntaf dynodedig ac yn Ddeiliad Trwydded Bersonol.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

## 5 Rheoli Cyfleusterau ac Iechyd a Diogelwch

Ar y cyd â'r Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Profiad Ymwelwyr, sicrhau diogelwch, cynnal a chadw a gweithredu effeithiol ym mannau cyhoeddus yr adeilad. Sicrhau bod amgylcheddau gweithio diogel yn cael eu cynnal, drwy raglen effeithiol o asesu risg a rheoli cyflenwyr.

5.1 **Cydymffurfiaeth**: Sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio'n llawn â thelerau y Drwydded Adloniant, polisïau Iechyd a Diogelwch ac Iechyd yr Amgylchedd a phrosesau rheoli risg ymhob agwedd o weithrediadau'r Sherman â'r cyhoedd ac ar gyfer ardaloedd cefn llwyfan a swyddfeydd dynodedig yr adeilad.

5.2 **Iechyd a Diogelwch:** Gweithio gyda'r Pennaeth Gweithrediadau i sicrhau bod holl staff y Bar a Chegin, a gwirfoddolwyr, yn cadw at yr holl reoliadau, polisïau a darpariaethau Iechyd a Diogelwch. Sicrhau systemau glanhau cynhwysfawr ar gyfer y Bar a'r Gegin a bod yr ardaloedd yn cael eu glanhau'n ddyddiol gyda deunyddiau priodol a bod gwastraff yn cael ei waredu yn unol â pholisi gwastraff y cwmni.

5.3 **Diogelwch Tân:** Ymgymryd â hyfforddiant diogelwch tân rheolaidd a driliau gwacáu yr adeilad gyda staff Blaen Tŷ, Gwirfoddolwyr ac, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Profiad Ymwelwyr, gyda'r holl staff eraill sy'n gweithio yn yr adeilad a chadw'r holl gofnodion angenrheidiol.

5.4 **Digwyddiadau mawr**: Fel Rheolwr ar Ddyletswydd, cymryd cyfrifoldeb arweiniol mewn achos o wacáu yr adeilad a/neu ddigwyddiad mawr, gan weithredu i ddechrau fel rheolwr y digwyddiad, a chysylltu â'r Pennaeth Gweithrediadau, yr Uwch Dîm Arwain a'r Prif Weithredwr i'w hysbysu.

5.5 **Diogelwch Adeiladau**: Yn absenoldeb y Pennaeth Gweithrediadau, goruchwylio'r systemau Diogelwch; gweithredu fel deiliad allwedd pan fo angen.

5.6 **Cynnal a Chadw**: Cynorthwyo'r Pennaeth Gweithrediadau i oruchwylio cytundebau a gwasanaethau cynnal a chadw ar gyfer holl fannau cyhoeddus yr adeilad.

5.7 **Rheoli Adeiladau:** Rheoli y System Reoli Adeiladau gyfrifiadurol o ddydd i ddydd, rheoli mynediad a'r system TCC.

5.8 **Glanhau**: Goruchwylio gwaith y contractwyr glanhau gyda'r Pennaeth Gweithrediadau a'r Rheolwr Profiad Ymwelwyr, gan gynnwys cefnogi a chynnal archwiliadau wythnosol. Yn absenoldeb y Pennaeth Gweithrediadau, sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer patrymau gwaith sy'n seiliedig ar amserlen perfformiadau a digwyddiadau, cytuno pa ardaloedd i'w glanhau a sicrhau bod gwasanaeth gwerth am arian yn cael ei ddarparu o fewn y gyllideb.

5.9 **Cynaliadwyedd:** Rhoi mewnbwn i ddatblygiad ymagwedd y Sherman tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol megis rheoli a lleihau'r defnydd o ynni, a chymryd rhan mewn prosiectau cynaliadwyedd, gan gynnwys gweithredu Llyfr Gwyrdd Theatr y DU.

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk

@ShermanTheatre

**Mae'n ddyletswydd cadw at y Datganiad Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant cyfredol a datganiadau polisi eraill fel y'u nodir yn y Llawlyfr i Staff.**

*Cofiwch: Byddwch wedi'ch cyflogi fel Rheolwr Bar a Chegin. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd gofyn i chi gyflawni dyletswyddau eraill ar yr un raddfa a phecyn tâl, a'r un cyfanswm o oriau gwaith. Byddwch yn cael rhybudd bedair wythnos ymlaen llaw am unrhyw newidiadau mewn dyletswyddau.*

*Swydd newydd gyda disgrifiad swydd newydd yw hon, ac felly mae'n bosib y bydd yn destun newidiadau gan eich rheolwr llinell, neu gallai fod yn rhan o drafodaethau un ai yn eich Arfarniad blynyddol neu gyfarfod priodol arall, yn ddibynnol ar frys y drafodaeth dan sylw.*

SHERMAN
THEATR • THEATRE

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk

@ShermanTheatre

# MANYLEB PERSON: RHEOLWR BAR A CHEGIN

## HANFODOL

- 2 flynedd neu fwy o brofiad mewn rôl rheoli / goruchwylio yn y diwydiant arlwyo a bariau.
- Profiad amlwg o weithio o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt ac o drin arian parod, rheoli stoc a systemau cysoni.
- Tystiolaeth amlwg o arwain, rheoli ac ysgogi timau yn effeithiol.
- Profiad o roi gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol ar waith.
- Profiad o reoli digwyddiadau.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion a disgwyliadau cynulleidfaoedd/ymwelwyr.
- Sgiliau gwrando, dylanwadu a chyfathrebu llafar rhagorol.
- Sgiliau pobl cryf: y gallu i arwain ac ysgogi, cymryd cyfrifoldeb, dirprwyo'n briodol a goruchwylio'n effeithiol.
- Sgiliau rheoli personol cryf: y gallu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith, delio'n effeithiol â phwysau, rheoli tasgau sy'n cystadlu â'i gilydd a chynnal agwedd gadarnhaol ac optimistaidd.
- Yn barod i weithio'n galed, yn llawn cymhelliant ac yn ymroddedig i arferion gorau.
- Cyflawnwr trwyadl sy'n ymfalchïo mewn tasgau sydd wedi'u cwblhau'n llawn ac i safon uchel. Yn gallu cael y gorau o'r bobl y maent yn gyfrifol amdanynt.
- Dawn o ddelio â'r cyhoedd a darparu gofal cwsmer rhagorol; mwynhad gwirioneddol o weithio gyda phobl.
- Dealltwriaeth o, ac ymrwymiad i, amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â'r dychymyg a'r cymhwysiad i nodi anghenion a dewisiadau penodol ymwelwyr presennol ac ymwelwyr posibl.
- Y gallu i feddwl yn ddadansoddol gydag ymagwedd resymegol at ddatrys problemau a'r gallu i ragweld goblygiadau a chanlyniadau sefyllfaoedd a chymryd camau priodol.
- Sylw trwyadl i fanylder er mwyn sicrhau safonau cyson ymhob agwedd o'r hyn rydym yn ei gynnig.

## HYNOD DDYMUNOL

- Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg

Senghennydd Road,
Cardiff, CF24 4YE
Ffordd Senghennydd,
Caerdydd, CF24 4YE

029 2064 6900
shermantheatre.co.uk
@ShermanTheatre

## DYMUNOL

- Deiliad Trwydded Bersonol.
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gweithle/Swyddog Tân neu gymwyseddau Diogelwch yn y Gwaith.
- Tystysgrif Safonau Bwyd EHO.
- Tystysgrif COSHH
- Brwdfrydedd dros weithgareddau celfyddydol ac am y theatr yn arbennig.
- Trwydded yrru lawn

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

disability confident
COMMITTED